

Canllawiau Lleoliad: Eich Eiddo fel Lleoliad Ffilm Posibl

Beth yw 'Sgrin Cymru'?

Yr enw blaenorol oedd 'Comisiwn Sgrîn Cymru', a chafodd ei lansio ym mis Hydref 2002, sef gwasanaeth cymorth cynhyrchu Cymru gyfan, bellach yn rhan o dîm Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru. Rydym yn cynnig gwasanaeth proffesiynol am ddim i unrhyw un sy'n ffilmio ledled Cymru. Rydym wedi cynorthwyo miloedd o gynrychiadau yn y gorffennol, o sioeau teledu poblogaidd fel *Sex Education*, *Doctor Who* a *Sherlock* i ffilmiau nodwedd mawr fel *Harry Potter a'r Deathly Hallows* a *Snow White a'r Huntsman*.

Sut mae rhaglenni a ffilmiau teledu yn dod o hyd i leoliad?

Fel arfer, cyflogir Rheolwyr Lleoliad gan gwmnïau cynhyrchu i 'sgowtio' a dod o hyd i leoliadau ar gyfer hysbysebion, dramâu teledu neu ffilmiau nodwedd. Rydym yn darparu mynediad i'n cronfa ddata helaeth o leoliadau ar-lein er mwyn iddynt weld pa fathau o leoliadau sydd ar gael yma yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o chwiliadau lleoliad yn dechrau gyda chwiliad llyfrgell sy'n gwneud dod o hyd i leoliad yn gyflymach ac yn haws i bawb. Rydym yn adeiladu ar ein cronfa ddata yn gyson ac rydym bob amser yn chwilio am eiddo newydd i gofrestru.

Beth yw lleoliadau?

Gellir defnyddio unrhyw beth ac unrhyw le fel lleoliad; mae'r ymholiadau a dderbyniwn mor amrywiol â'n tirwedd. Mae cwmnïau cynhyrchu yn gofyn am bob math o bethau, o fythynnod bach, anghysbell i gestyll ysblennydd a ffatrioedd enfawr.

A yw fy eiddo yn addas?

Yn amlwg, mae yna agweddau ymarferol i'w hystyried; mae hyd yn oed criwiau bach angen lle i weithio ynddo felly gorau po fwyaf yw eich ystafelloedd. Fodd bynnag, peidiwch â chael eich digalonni os yw eich eiddo yn llai, yn aml gall y rhain fod yn addas ar gyfer ffotograffiaeth neu hysbysebion llonydd. Gall parcio fod yn fater pwysig. Bydd angen lle gerllaw i barcio cerbydau er mwyn cael dadlwytho offer (goleuadau neu gynhyrchwyr ac ati) ac nid ydych am darfu ar eich cymdogion!

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cofrestru?

Os ydych yn cofrestru ar ein cronfa ddata, chi sy'n penderfynu a hoffech i gwmni cynhyrchu ddefnyddio'r tu mewn, y tu allan neu'r cyfan o'ch eiddo. Ar ôl inni gael eich manylion, gellir ystyried eich eiddo os yw'n cyfateb ag ymholiad. Os yw'ch eiddo'n addas, byddwn yn anfon ffotograffau ohono a rhywfaint o wybodaeth sylfaenol at yr ymholwr. Os ydynt yn hoffi'r hyn y maent yn ei weld, byddwn wedyn yn trosglwyddo eich manylion i'r cwmni cynhyrchu (neu'r Rheolwr Lleoliad sy'n gweithio ar eu rhan) er mwyn iddynt gysylltu â chi'n uniongyrchol ac yna gallwch gael gwybod mwy am y cynnig a gweld a oes gennyh ddiddordeb.

Pam ddylwn i ystyried cofrestru?

Gall defnyddio eich cartref neu safle busnes fod yn brofiad cyffrous a phroffidiol, unwaith y byddwch yn daell cwrpas y cynhyrchiad a'r broses dan sylw. Os caiff ei ddewis, mae'n gyfle gwych i weld eich eiddo ar y sgrin, ac efallai y gwelwch berson enwog yn eich cartref!

Hefyd, pan fydd cwmni cynhyrchu yn ffilmio mewn lleoliad byddant fel arfer yn talu ffi cyfleuster. Mae'r swm yn dibynnu ar sawl ffactor, megis cyllideb gyffredinol y cynhyrchiad, am faint o amser y byddant yn defnyddio'r eiddo a faint o darfu fydd y ffilmio yn ei achosi. Er enghraifft, os ydynt am ddefnyddio'r tŷ cyfan, trafodwch sut y byddwch chi a'ch teulu yn cael eich lletya wrth ffilmio a'r costau byw a allai godi. Dim ond symiau bychain y gall rhai cynyrchiadau cyllideb is neu ffilmiau byr eu talu tra gallai hysbysebion neu ffilmiau nodwedd gyda chyllidebau mwy gynnis llawer mwy.

Sut mae cofrestru?

Gallwch gofrestru'n uniongyrchol ar ein gwefan a hefyd ychwanegu eich lluniau eich hun. Fel arall, gallwch gysylltu â Sgrîn Cymru i fynegi eich diddordeb, a gallwn eich arwain drwy'r broses. Mae'n wasanaeth rhad ac am ddim. Gallwch fod yn dawel eich meddwl nad ydym byth yn cyhoeddi manylion cyswllt perchnogion eiddo nac union leoliad eiddo preifat ar ein gwefan.

Lluniau Lleoliad

Yn ddelfrydol, hoffem gael detholiad da o luniau digidol, clir wedi'u tynnu y tu mewn a'r tu allan i'ch eiddo sy'n rhoi trosolwg cyffredinol i reolwyr lleoliadau. Os yw wrth ymyl prif ffordd er enghraifft, byddai'n ddefnyddiol dangos hyn yn un o'r lluniau. Os oes gennych unrhyw nodweddion diddorol fel seler neu ardd fawr, byddai delweddau o hyn hefyd o fudd. Mae'n ddefnyddiol tynnu lluniau llydan o'r prif ystafelloedd derbyn (wedi'u cymryd o gornel yr ystafell i gael cymaint yn y llun â phosibl). Peidiwch â chyflwyno unrhyw luniau teuluol gan nad ydym yn gallu cynnwys delweddau sy'n cynnwys pobl. Byddwn hefyd yn ceisio pylu unrhyw gofrestradau ceir a allai fod yn weladwy mewn lluniau y tu allan.

Os na allwch dynnu lluniau, rhowch wybod i ni ac efallai y gallwn drefnu amser cyfleus i ymweld er mwyn cymryd ein rhai ein hunain.

Pwy sy'n gwneud y penderfyniad am ffilmio ar fy eiddo?

TI! Mae popeth yn dibynnu ar sut rydych chi'n teimlo am y syniad, maint ac amseriad y syniad. Unwaith y bydd gan gwmni cynhyrchu ddiddordeb yn eich eiddo byddwn yn eu rhoi mewn cysylltiad â chi'n uniongyrchol i'w drafod ymhellach. Yna dylid trafod contract priodol a ffioedd addas rhyngoch chi a'r cwmni cynhyrchu. Efallai y bydd yn briodol i chi wirio hyn gyda'ch cwmni yswiriant cartref.

Pa mor aml fyddent yn debygol o gysylltu â mi?

Mae hwn yn gwestiwn anodd i'w ateb. Yn y gorffennol rydym wedi ymateb i gannoedd o ymholiadau ac wedi paru cwmnïau cynhyrchu â llawer o safleoedd lleol. Mae cwmnïau ffilm a theledu ar leoliad drwy gydol y flwyddyn ledled Cymru. Er na allwn warantu y bydd eich eiddo'n cael ei ddefnyddio; ar ôl i ni gael eich manylion, gallwn sicrhau fod gennych pob cyfle posibl i gael eich dewis. Peidiwch â phoeni os

na fyddwch yn clywed gennym am amser hir, mae eich manylion gyda ni yn aros i gael eu "darganfod"!

Beth i'w ddisgwyl

Yn dibynnu ar y math o gynhyrchiad, gallant amrywio'n fawr o ran maint – o griw o 3 o bobl i dros 100. Yn yr un modd, mae'r ffioedd a delir gan gynhyrchiad yn amrywio yn ôl maint y cynhyrchiad, y math o eiddo ac i ba raddau y bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio.

Er y gall Sgrîn Cymru gynnig cyngor am ffioedd lleoliad, ni allwn ymrwymo i unrhyw un o'r trafodaethau cyfreithiol. Dylai perchennog lleoliad ddisgwyl ffi sy'n ddigonol ar gyfer lefel y tarfu a achosir oherwydd y ffilmio. Bydd cwmnïau cynhyrchu yn aml yn chwilio am leoliadau eraill os ydynt yn teimlo bod perchennog yn gofyn gormod. Mewn rhai achosion efallai y bydd cynhyrchiad am ail-addurno neu newid dodrefn yn eich eiddo. Mae'n arferol i gynhyrchiadau gynnal sawl ymweliad (neu 'recces') o bosibl gyda phobl ychwanegol bob tro, gan y bydd angen i wahanol aelodau criw weld y lleoliad (Dylunydd Cynhyrchu, Cyfarwyddwr Ffotograffiaeth ac ati).

Fel perchennog lleoliad mae'n bwysig eich bod yn dod i gytundeb gyda'r cynhyrchiad am yr hyn rydych chi'n hapus iddynt ei wneud a chael contract yn amlinellu hyn. Dylai lleoliadau gael eu dychwelyd bob amser i'w cyflwr gwreiddiol ar ôl ffilmio a'r cwmni cynhyrchu i dalu am unrhyw ddifrod neu ddamweiniau.

Gall cynhyrchiad darfu arnoch, ond yn y pen draw mae'n brofiad cadarnhaol i berthennog lleoliad, mae'n wych gweld eich eiddo ar y sgrin.

Crynodeb

- Unwaith y byddwch wedi cofrestru ar ein cronfa ddata y cam nesaf yw eich cyswllt â'r Rheolwr Lleoliadau. Maent fel arfer yn gweithio'n llawrydd ac yn cael eu cyflogi gan y cwmni cynhyrchu ar gyfer cynhyrchiad penodol. Weithiau maent yn ymwelwyr a gallant fod yn anghyfarwydd â'r ardal
- Trafod natur y prosiect yn fanwl gyda hwy. Darganfod sut yn union fydd y lleoliad yn cael ei ddefnyddio a gofyn am gael gweld y rhan berthnasol o'r sgrïpt y bydd eich eiddo'n ymddangos ynddo
- Pennu union nifer y diwrnodau sydd eu hangen ar gyfer y ffilmio gan gynnwys diwrnodau 'paratoi'/sefydlu, diwrnodau ffilmio a diwrnodau 'de-rig' pan fyddant yn clirio
- Trefnu i fynd am dro gyda'r Cyfarwyddwr neu'r Rheolwr Cynhyrchu/Lleoliad i bennu'r union safle tu mewn neu tu allan y maent am eu ffilmio

- Trafodwch unrhyw fannau nad ydych i'r criw fynd iddynt, h.y. ystafelloedd gwely
- Trefnu lle gellir storio a pharcio offer a cherbydau
- Penderfynu pwy yn union fydd yn cael mynediad i'r lleoliad a sut y bydd hyn yn cael ei orfodi
- Cytuno ar y gofynion glanhau, bod yr eiddo i'w adael fel y'i canfuwyd a cytuno ar amser cwblhau
- Fe'ch cynghorir i fynd drwy unrhyw beth a allai ddod o dan ganllawiau iechyd a diogelwch (protocolau COVID ac ati) a sicrhau bod gan y cwmni yswiriant atebolwydd cyhoeddus
- Mae gan ran fwyaf y cwmnïau cynhyrchu proffesiynol yswiriant sy'n cynnwys rhentu trydydd parti ar gyfer difrod ac atebolwydd eiddo. Gallwch holi am hyn a gofyn am gael copi cyn i unrhyw aelod o'r criw gyrraedd eich eiddo
- Mae'n syniad da negodi contract ffurfiol sy'n ymgorffori rhai neu'r cyfan o'r canllawiau uchod yn ogystal â'r ffi gyda darparwr yswiriant cartref
- Mae'r ffi yn cael ei negodi fel arfer ac mae'n dibynnu ar faint y ffilm a chyllideb y cwmni cynhyrchu. Dylech deimlo'n hapus â'r swm y cytunwyd arno

Yn anad dim, mae'n bwysig mwynhau'r profiad!

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol, mae croeso i chi gysylltu â Sgrîn Cymru, rydym bob amser yn hapus i'ch arwain drwy'r broses os oes gennych unrhyw bryderon.